# Cyngor Cymuned Tudweiliog

## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 9fed Rhagfyr 2024
Festri Capel Garnfadryn

Presennol: Terry Huws, Dafydd Williams, Gareth Jones, Chris Brady, Deio Williams, Catrin Williams, Sian Parri,Sioned Pearson, Alun Williams, Alan Hughes

Ymddiheuriadau: Henry Hughes

1. Cadeirwyd gan Catrin Williams, estynnodd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Cafwyd cadarnhad fod y cais cynllunio wedi ei dderbyn gan yr Adran Gynllunio, ond mae angen mwy o fanylion ar yr Adran Gynllunio– bydd y Clerc yn edrych dros y cais eto gan geisio ymateb i'r gofynion ychwanegol. Adroddodd y Cadeirydd Catrin Williams ei bod wedi mynychu Cyfarfod Llywodraethol Ysgol Tudweiliog fel Clerc ple codwyd mater y fynwent newydd. Cafwyd ar ddeall fod yr Ysgol yn dymuno derbyn unrhyw ddiweddariad ynglyn a'r cais cynllunio a datblygiad y fynwent – bydd y Clerc y neu gwybyddu o unrhyw gam pellach fydd yn digwydd.
   b. **Carafan heb ganiatad Llangwnnadl –** Derbynwyd neges gan y Cynghorydd Gareth Jones fod Swyddog Gorfodaeth wedi ymweld ar safle, ai fod yn cydnabod bod dwyshad yn nefnydd y tir. Mae ffeil agored ar y mater a bydd y Swyddog yn ysgrifennu ymhellach at meddianwr y garafan.
   c. **Cwt Cychod Porthysgaden –** Ni chafwyd ymateb.

**Ch**. **Gwaith adeiladu yn Rhos y Grug** – Derbynwyd neges gan y Cynghorydd Gareth Jones fod Swyddog Gorfodaeth wedi ymweld a'r safle, ond daeth yn amlwg ei fod ar safle anghywir. Bydd Gareth Jones yn anfon cyfarwyddiadau o ble mae'r safle ato.

**d. Tarmac ger Wergloedd Fawr-** Derbyniodd y Clerc neges gan yr Adran FFyrdd yn ein gwybyddu fod Swyddog wedi ymweld ar safle ac y bydd yn cael ei atgyweirio pan fydd adnoddau ar gael.

**Dd**. **Creu llwybyr cyhoeddus newydd maes parcio Penllech-** Derbynwyd neges gan Swyddog yn ein gwybyddu mai arian o Gronfa Grant Adfer Natur a Gwella mynediad fydd yn talu am y gwaith – ni fydd cost ar y Cyngor. Ni all y Swyddog ddatgan cost y gwaith ar hyn o bryd er tegwch i'r contractwyr. Y rhesymau dros y gwaith ydi diogelu defnyddwyr rhag ceir sy'n teithio'n gyflym rownd y gornel gan gofio fod plant yn rhuthro o'r maes parcio.

**e. Gwahoddiad i Gyfarfod Cynghorau Cymuned a thref Pen Llyn –** Cafwyd adroddiad gan Sian Parri o'r hyn a fu yn y cyfarfod diwethaf. Bydd Sian a Henry yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser bydd y Clerc yn cysylltu ag Arfon o Cymunedoli Cyf i gael mwy o wybodaeth o'r bwriad, gan ofyn pwy sy'n trefnu a'r nod.

**f. Carafan a mynedfa Cefn Dwynant Dinas –** Derbynwyd cadarnhad gan yr Adran Gorfodaeth fod Swyddog wedi ymweld ar safle a bod torrheolaeth cynllunio wedi digwydd. Bydd y Swyddog yn gwneud asesiad pellach i benderfnu os bydd camau gorfodaeth cynllunio ffurfiol yn cymeryd lle.

**Ff. Gwaith adeiladu yn Lion Tudweiliog –** Derbynwyd neges gan y Cynghorydd Gareth Jones fod Swyddog Gorfodaeth wedi ymweld a bod y gwaith angen caniatad cynllunio.

4. Gohebiaeth:

   a. **Cyflog y Clerc -** Cafwyd caniatad i'w dalu..
   b. **Pwyllgor Craffu Cymunedau – Cynllunio a Cymunedau Cymraeg-** Eglurodd Sian Parri beth oedd bwriad y pwyllgor craffu. Bydd y Clerc yn cysylltu ar adran cynllunio I ddiolch iddynt am y wybodaeth gan hefyd dynnu sylw at y ffaith ein bod mewn Ardal o Arwyddocad Ieithyddol Dwysedd Uwch, gan nodi hefyd:

- Fod Cyngor Cymuned Tudweiliog yn falch o dderbyn y neges ac yn cadarnhau y byddwn o hyn ymlaen yn nodi ein barn ni am effaith ieithyddol pob un cais cynllunio ar yr iaith Gymraeg.

- Ein bod hefyd yn cytuno efo'r pwyllgor craffu y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu ‘Polisi Cynllunio Cymru’ a ‘Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a’r Gymraeg’ er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol.
- Ein bod yn cytuno efo pwyntiau'r Cyng. Steven Churchman ac yn gofyn i'r pwyllgor craffu gefnogi'r tri pwynt 1) 4.7 Dylid newid geiriad i nodi fod yn 'rhaid' (must) ymgynghori efo Comisiynydd y Gymraeg. 2) 4.19 dylid gosod 'amodau iaith' fel amodau cynllunio a gwneud gwarchod y Gymraeg yn amod cynllunio yn hytrach na 'encourage'. 3) Mae'n rhaid monitro effaith Erthygl 4 am ei fod yn debygol o gael effaith fwy niweidiol ar y Gymraeg mewn amser bur nac y mae'r un polisi arall wedi ei gael erioed o'r blaen.

**c. Cais Cynllunio Cae Capel Botwnnog –** Derbynwyd llythyr gan Cyngor Cymuned Botwnnog yn gofyn am ein cefnogaeth i’w hymdrech i ofyn wrth ADRA i dynnu’r Apel yn ol.
Oherwydd fod ein Cadeirydd Catrin William yn gysylltiedig a’r cais Cae Capel gofynnwyd oes oedd am ddatgan diddordeb.
Dywedodd Catrin ei bod yn awyddus i aros fel ei bod yn cael cyfle i ddatgan eu hochr hwy fel Cwmni Cae Capel i’r mater. Cafwyd ar ddeall mai nid ADRA sydd yn mynd a’r cais i Apel on cwmni Cae Capel. Golyga hyn fod pawb wedi eu cam ddeall y mater.
Gadawodd Catrin yr ystafell, daeth yr isGadeirydd Sioned Pearson i’r gadari ple cafwyd trafod pellach. Penderfynwyd anfon at Cyngor Cymuned Botwnog yn egluro ein sefyllfa fod ein Cadeirydd yn rhan o’r cwmni Cae Capel ac felly yn ein gwneud yn annodd i’r Cyngor ddatgan barn. Hefyd bydd y Clerc yn gwybyddu Cynogr Cymuned Botwnnog mai nid ADRA sydd mewn gwirionedd yn ceisio Apel.
Daeth y Cadeirydd Catrin Williams

**Ch.Cais Cynllunio C24/1015/46/DT Bodychenan, Llangwnnadl –** Dim Sylw.

**d. Cais Cynllunio C24/0971/46/LL Trefgraig Plas, Rhydliog -** Cefnogi

**dd.Cais Cynllunio C24/0964/46/LL Felin Madryn, Mdaryn -** Cefnogi

**d. Cais Cynllunio C24/0950/46/LL Tyn Simdde, Llaniestyn -** Cefnogi

**e. Cais Cynllunio C24/1052/46/DT Pen y Bryn Llaniestyn –** Dim Sylw.

**f.Cais Cynllunio C24/0991/46/DT Hendy Dinas –** Cynigiodd Alan Hughes a Sioned Pearson ddatgan diddordeb. – Cefnogi

**ff. Cais Cynllunio C24/1038/46/LL Berth Aur Llangwnnadi** – Cefnogi

## 5. Unrhyw fater arall

a. Oherwydd y gor yrrru sydd o flaen yr Ysgol yn Tudweiliog awgrymwyd fod y Cyngor Cymdeithas yn anfon at y pennaeth yn gofyn iddi lythyru a phob teulu yn eu rhybuddio o beryglon gor yrru wrth ddanfon a casglu y plant o'r Ysgol. Awgrymwyd hefyd y byddai'n dda cael y plant i ddylunio arwyddion i'w gosod ar y ffordd sy'n arwain i'r Ysgol yn gofyn i'r cerbydau arafu.
b. Mwd ar lon rhwng Dinas a Llaniestyn – bydd y Clerc yn cysylltu a'r Adran Priffyrdd.
c. Daeth i sylw Cyngor Cumuned fod  y cytiau ym Mhorth Cychod Porthysgaden wedi eu difrodi'n ddrwg yn dilyn y storm fawr fuodd dros y penwythnos.  Bydd y Clerc yn cysylltu ar Cyngor Pysgotwyr Porthysgaden.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun Ionawr 13eg am 7.30yh
Festri Capel Tudweiliog..